# Dysgu ar draws y cwricwlwm

# Gyrfaoedd a’r byd gwaith

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr 11–19 oed datblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

Mater i'r ysgolion benderfynu arno yw nifer a chyd-destun y cyfleoedd hynny o fewn eu gorolwg/cynllun o'r cwricwlwm.

Mae'r ddogfen hon yn amlygu'r datganiadau neu'r adrannau hynny o fewn rhaglen astudio/deilliannau dysgu lle ceir cysylltiad pendant â gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG).

## Saesneg

Bydd Saesneg yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y dysgwyr o yrfaoedd a’r byd gwaith drwy roi iddynt y sgiliau cyfathrebu, sef siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy’n eu galluogi i weithredu’n effeithiol ym myd gwaith ac yn y gymdeithas yn ei chrynswth.

Mewn Saesneg, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Cymraeg

Bydd Cymraeg yn cyfrannu at yrfaoedd a’r byd gwaith trwy alluogi dysgwyr i fanteisio ar y cyfleoedd cynyddol i weithio mewn meysydd lle mae angen sgiliau dwyieithog, a gwneud y mwyaf o’r twf yn y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle. Hefyd, bydd yn galluogi dysgwyr i ryngweithio â’r rhai sy’n ddwyieithog mewn lleoliadau gwaith.

.

Mewn Cymraeg, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Ieithoedd tramor modern

Mewn ieithoedd tramor modern, dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd ym myd gwaith, yr economi fyd-eang a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Gall y dysgwyr ddefnyddio ieithoedd mewn cyd-destunau cysylltiedig â gwaith a gall ysgolion wneud disgyblion yn ymwybodol o rôl ieithoedd mewn ystod o swyddi drwy ymweliadau, cysylltiadau busnes lleol ac adnoddau cysylltiedig â gwaith eraill.

Mewn ieithoedd tramor modern, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Mathemateg

Bydd mathemateg yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y dysgwyr o yrfaoedd a’r byd gwaith drwy ddarparu cyfleoedd i gymhwyso mathemateg yng nghyd-destun ymwybyddiaeth ariannol o gyflogaeth, cyllidebu, cynilo a gwario.

### Cyfnod Allweddol 3

| **Ystod** |
|---|
| **Mesurau ac arian** |
| **Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion:**<br>**2. Deall a defnyddio arian**<br>• cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy’n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian cyfred |

### Cyfnod Allweddol 4

| **Ystod** |
|---|
| **Mesurau ac arian** |
| **Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion:**<br>**2. Deall a defnyddio arian**<br>• cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy’n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian cyfred, elw a cholled, disgownt, hurbwrcas, y bargeinion gorau, biliau tŷ a llog cyfansawdd |

## Gwyddoniaeth

Bydd gwyddoniaeth yn cyfrannu at yrfaoedd a byd gwaith drwy alluogi dysgwyr i astudio ystod o gymwysiadau'n ymwneud â gwyddoniaeth, meddygaeth a thechnoleg yn eu bywyd bob dydd a'r byd ehangach. Mae hynny'n rhoi cyfle i ddysgwyr weld sut mae gwyddonwyr yn gweithio. Bydd gwyddoniaeth hefyd yn datblygu sgiliau arbrofol a generig sy'n angenrheidiol ar gyfer byd gwaith.

Mewn gwyddoniaeth, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Dylunio a thechnoleg

Bydd dylunio a thechnoleg yn cyfrannu at ymwybyddiaeth dysgwyr o yrfaoedd a'r byd gwaith drwy roi cyfleoedd iddynt ddeall sut y caiff cynhyrchion a gwasanaethau defnyddwyr eu datblygu a sut y cânt eu dwyn i'r farchnad a chodi eu hymwybyddiaeth o ystod ac amrywiaeth y gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu yn y byd ehangach. Bydd dylunio a thechnoleg hefyd yn caniatáu i ddysgwyr ymgysylltu â'r technolegau dylunio a gweithgynhyrchu a gaiff eu defnyddio fwyfwy yn y gweithle.

### Cyfnod Allweddol 3

| **Ystod** |
| --- |
| **Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion feithrin eu gallu ym maes dylunio a thechnoleg drwy gyfrwng:** |
| • myfyrio ynghylch gwaith dylunwyr, dyfeiswyr, penseiri a chogyddion, gan gynnwys y rhai o Gymru |
| **Iechyd a diogelwch** |
| Dylid addysgu'r disgyblion sut i ddefnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel ac ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau. Dylent allu dilyn cyfarwyddiadau i reoli'r risg iddynt hwy eu hunain ac eraill, *e.e. offer gyfarpar trydanol, peiriannau sy'n cylchdroi, peiriannau gwnïo.* Wrth ddylunio a gwneud cynhyrchion, dylai'r disgyblion ystyried diogelwch y defnyddiwr, *e.e. ansawdd adeiladwaith y cynhyrchion, sut y dylid cynnal safonau glendid wrth baratoi cynnyrch bwyd.*<br>Dylid sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith ymddygiad penodol ar eu hiechyd a'u diogelwch, *e.e. bwyta'n iach.* |

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Bydd TGCh yn cyfrannu at ymwybyddiaeth dysgwyr o yrfaoedd a'r byd gwaith drwy roi cyfleoedd iddynt ymwneud yn bwrpasol â'r technolegau a ddefnyddir fwyfwy yn y gweithle, datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer cyflogaeth, ac ystyried effeithiau economaidd TGCh yn y byd ehangach.

### Cyfnod Allweddol 3

| **Ystod** |
|---|
| **Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:** |
| • dod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd mewn TGCh ac ystyried y materion cymdeithasol, economaidd, moesegol a moesol sy'n codi o ganlyniad i effaith TGCh a'r defnydd a wneir ohoni. |

## Hanes

Bydd hanes yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y dysgwyr o yrfaoedd a’r byd gwaith trwy ddatblygu eu dealltwriaeth o’r ffactorau sydd wedi llunio’r byd gwaith yn y gorffennol, sut mae diwygiadau cymdeithasol a diwydiannol wedi digwydd, newidiadau ar draws gwahanol gyfnodau ac o fewn yr un cyfnod, a newidiadau yr ugeinfed ganrif. Hefyd, bydd yn cyfrannu at eu paratoi ar gyfer bywyd gwaith trwy ddatblygu sgiliau dadansoddi tystiolaeth a dadl, canfod tuedd a rhagfarn, a llunio dadl neu ddehongliad o ddigwyddiadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

### Cyfnod Allweddol 3

| **Ystod** |
|---|
| Dylid rhoi cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu sgiliau hanesyddol ac adeiladu ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o nodweddion bywyd bob dydd yn y gorffennol drwy ffocysu ar hanes gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol yn y cyd-destunau canlynol. |

## Daearyddiaeth

Mewn daearyddiaeth, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ymchwilio i ffactorau sy’n effeithio ar yr economi yn eu cymuned lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Byddant yn dysgu am y cysylltiadau rhwng cynhyrchu a defnyddio a’r effaith bosibl ar gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys datblygiad eu gyrfa hwy eu hunain. Byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o’r derminoleg sy’n cael ei defnyddio ym myd gwaith, megis llafur rhad, cystadlu, diwydiannau gwasanaethu. Byddant yn ystyried sut mae prosesau economaidd yn newid Cymru a bydd ganddynt gyfleoedd i drafod sut mae cynaliadwyedd a materion byd-eang yn effeithio ar fyd gwaith. Byddant hefyd yn meithrin sgiliau a thechnegau gwerthfawr sy’n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys defnyddio GIS, defnyddio a chreu mapiau, cynnal arolygon, dadansoddi data, a gwneud gwaith ymchwil.

**Cyfnod Allweddol 3**

| **Ystod** |
|---|
| **Dylai’r disgyblion gael cyfleoedd i:** |
| **Astudio**<br>• pobl fel defnyddwyr: yr effeithiau ar weithgarwch economaidd a’r newidiadau mewn gweithgarwch economaidd |

## Celf a dylunio

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o yrfaoedd a'r byd gwaith trwy eu dealltwriaeth o'r dulliau a ddefnyddir gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr wrth ymarfer eu crefft.

### Cyfnod Allweddol 2

<table>
<tr><th>Ystod</th></tr>
<tr><td>Deall</td></tr>
<tr><td>Lle bo hynny'n briodol, dylai'r disgyblion gael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan:<ul><li>artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft</li></ul></td></tr>
<tr><td>Ymchwilio</td></tr>
<tr><td>Dylai'r disgyblion ymchwilio i:<ul><li>briodweddau defnyddiau a phrosesau</li><li>gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol</li><li>gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud</li><li>gwrthrychau ac amgylcheddau dychmygol.</li></ul>Lle bo hynny'n briodol, dylent ddefnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau a gasglwyd o:<ul><li>artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft</li></ul></td></tr>
</table>

### Cyfnod Allweddol 3

<table>
<tr><th>Ystod</th></tr>
<tr><td>Deall</td></tr>
<tr><td>Lle bo hynny'n briodol, dylai'r disgyblion gael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan:<ul><li>artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft</li></ul></td></tr>
<tr><td>Ymchwilio</td></tr>
<tr><td>Dylai'r disgyblion ymchwilio i:<ul><li>briodweddau defnyddiau a phrosesau</li><li>gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol</li><li>gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud</li><li>gwrthrychau ac amgylcheddau dychmygol.</li></ul>Lle bo hynny'n briodol, dylent ddefnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau perthnasol a gasglwyd o:<ul><li>artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft</li></ul></td></tr>
</table>

## Cerddoriaeth

Mewn cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau a phriodoleddau y gellir eu trosglwyddo, trwy greu cerddoriaeth yn unigol ac mewn grwpiau. Mae’r sgiliau a’r priodoleddau hyn yn helpu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes, gwaith a hamdden, a gallant gynnig llwybr i’r diwydiannau creadigol a diwylliannol sy’n ehangu’n gyson.

Mewn cerddoriaeth, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Addysg gorfforol

Mewn addysg gorfforol, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Addysg grefyddol

Bydd addysg grefyddol yn cyfrannu at yrfaoedd a’r byd gwaith drwy ddarparu mewnwelediad i’r ffordd y mae crefydd yn dylanwadu ar gredinwyr yn eu dewis o yrfa a’r safonau y disgwylir ganddynt yn eu bywyd gwaith. Gellir gwella cydlyniad cymunedol a dealltwriaeth yn y gweithle drwy wybodaeth am gredoau ac arferion crefyddol, diwylliannol a moesegol hanfodol (e.e. arferion gwisg, diwrnodau gŵyl, defod marwolaeth, ac ati). Bydd yr wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer galwedigaethau megis meddygaeth, gwleidyddiaeth, y gyfraith, addysg, ynghyd â galwedigaethau sy’n ymwneud â theithio, adloniant, y cyfryngau a’r lluoedd arfog, ac mewn gwirionedd ar gyfer pob dinesydd yn ein byd aml-ddiwylliannol.

Wrth geisio creu cymdeithas gyfiawn a theg, gall y dysgwyr werthuso amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol a moesol sy’n ymwneud â, er enghraifft hawliau cyflogaeth, entrepreneuriaeth foesegol, moesegau busnes, benthyg arian, a hyrwyddo prosesau ac arferion diwydiannol gwyrdd cynaliadwy. Yn ogystal, bydd addysg grefyddol yn cyfrannu at amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy megis mewnwelediad, datrys problemau, meddwl yn feirniadol, y gallu i werthuso gwahanol safbwyntiau a phwyso a mesur y canlyniadau, ac ati. Bydd y sgiliau hyn i gyd yn graidd i lawer o’r rhinweddau sydd eu hangen yn y byd gwaith heddiw sy’n heriol, cymhleth ac yn newid yn barhaus.

Mewn addysg grefyddol, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at GBG.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Mewn addysg bersonol a chymdeithasol, bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Byddant yn datblygu sgiliau hunanddadansoddi, adnabod cryfderau personol a gosod targedau ar gyfer gwelliant, ac yn cydnabod pwysigrwydd caffael y sgiliau newydd sydd eu hangen ar gyfer byd gwaith.

### Cyfnod Allweddol 2

| **Ystod** |
|---|
| **Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**<br><br>**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr deall:**<br>• yr ystod o swyddi a gaiff eu cyflawni gan bobl yn y gymuned |